
# Tai ClwydAlyn
# Pecyn Recriwtio
# Aelod o'r Bwrdd










ClwydAlyn

Dyma'r sector Tai

member of aelod o tai pawb promoting equality in housing hybu cydraddoldeb ym maes tai

Gweithredu, Nid Geiriau

amser i newid Cymru rhown ddiwedd ar wahaniaethu ar sail iechyd meddwl

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

TOP 30 CYFLOGWR GORAU 2022

Chwarae Teg

Mae ClwydAlyn yn Gymdeithas Gofrestredig Elusennol

## Cynnwys


Llythyr croeso ... 3
Ein cenhadaeth ... 4
Ynglŷn â ClwydAlyn ... 4
Ein strwythurau llywodraethu ... 10
Cyfarfod y tîm ... 11
Am bwy yr ydym yn chwilio ... 13
Eich ymrwymiad ... 15
Sut i ymgeisio ... 15





## Rydym yn credu...

credwn bod cael cartref diogel, o safon uchel o bwys gwirioneddol a dylai cartref fod yn fwy na dim ond pedair wal a tho. Mae ein siarter preswylwyr yn nodi ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau rhagorol i'n preswylwyr ac mae 'Ein Haddewid' wedi ei datblygu ar y cyd gyda'n preswylwyr.

# Llythyr croeso

Diolch am fynegi diddordeb yn **ClwydAlyn** a'r swyddi gwag i **Aelodau o'r Bwrdd**. Rydym yn Gymdeithas Dai uchelgeisiol ac yn cael ein gyrru gan ein gwerthoedd a'n cenhadaeth. Credwn nad yw'n iawn bod cymaint o ddiffyg cyfartaledd a thlodi ar draws ein rhanbarth, ac rydym yn gwybod bod hyn yn cael effaith ar bob agwedd o fywydau pobl. Fe wnaethom wneud safiad cryf i ddod â throi allan i ben bedair blynedd yn ôl ac rydym yn defnyddio ein harian a'n dylanwad i wneud popeth allwn ni i gefnogi'r rhai sy'n profi tlodi ac i hyrwyddo newid ar draws ein gwlad.

Rydym hefyd yn ddatblygwr tai newydd mawr gyda dros 600 ar waith ar hyn o bryd. Rydym yn ymfalchïo mewn adeiladu cartrefi o safon uchel; pob un yn cael ei adeiladu i gyrraedd gradd A EPC o leiaf; gan eu gwneud yn fforddiadwy i'n tenantiaid i fyw ynddynt a helpu i leihau allyriadau carbon. Rydym wedi adeiladu nifer o gynlluniau tai blaengar sy'n defnyddio adeiladwyr lleol o Gymru; fframiau pren wedi eu hadeiladu yng ngharchar y Berwyn a'r pympiau ffynhonnell aer a thechnoleg batri diweddaraf ac ati. Mae 80% o'n rhaglen yn dai cymdeithasol, ond rydym hefyd wedi adeiladu cartrefi ar gyfer rhent canolradd a phrynu gyda chymorth.

Rydym yn berchen ar 6,300 o gartrefi o oedrannau a mathau amrywiol ac rydym wedi ymrwymo i raglen eang o ôl-osod dros y 10 mlynedd nesaf.

Mae datblygu llais cryf i breswylwyr yn bwysig ac mae ein strwythur llywodraethu wedi ei adnewyddu yn sicr yn cefnogi hyn. Mae preswylwyr yn ganolog i bob penderfyniad a wnawn ac yn dylanwadu ar yr hyn yr ydym yn ei wneud a sut yr ydym yn ei wneud. Rydym yn croesawu adborth hyd yn oed pan fydd yn anghyfforddus ac rydym am wneud popeth allwn ni i fodloni disgwyliadau preswylwyr.

Rydym yn credu'n gryf ym manteision cydweithio a gweithio mewn partneriaeth. Rydym wedi datblygu perthynas gadarnhaol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, y bydd yr Aelodau newydd o'r Bwrdd am eu cefnogi a'u hannog.

Mae gennym gyfradd gredyd gref a digon o fenthyciadau ar gyfraddau llogau sefydlog i ariannu ein rhaglen ddatblygu am yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Rydym wedi cael y dyfarniad rheoleiddiol uchaf gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid a darparu gwasanaeth, ac nid oes gennym unrhyw weithredoedd gwella ffurfiol o ymweliadau rheoleiddiol diweddar Arolygaeth Gofal Cymru.

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf yn cynnwys; ailadeiladu ein helw ar weithrediadau ar ôl covid; datblygu cynllun fforddiadwy y gellir ei gyflawni i leihau ein hallyriadau carbon; sicrhau bod ein holl breswylwyr yn byw mewn cartrefi diogel, o safon uchel y gallant fforddio eu cynhesu; bodloni gofynion y drefn Diogelwch Adeiladau a buddsoddi rhagor i ymdrin ag effeithiau ac achosion tlodi yn ein cymunedau. Rydym am fod yn enghraifft o arfer da o ran cynhwysiant ac amrywiaeth fel cyflogwr a darparwr gwasanaeth.

Rydym ymhlith y 30 cyflogwr uchaf ar draws y Deyrnas Unedig i deuluoedd sy'n gweithio ac yn cynnig lle cyffrous a hwyliog i'n staff weithio gyda phecyn da o fuddion a hyblygrwydd i reoli eu gwaith a'u bywydau personol hefyd. Mae lefelau bodlonrwydd ein staff yn uchel, ac rydym wedi cyfnewid nifer o bolisïau â chyfarwyddyd gan adael i'n Rheolwyr weithredu mewn ffordd hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; gan fodloni anghenion busnes o ran ansawdd y gwasanaeth a pherfformiad.

Mae gennym Fwrdd cryf a thalentog, ac mae'r holl Aelodau yn cynnig gwahanol sgiliau a phrofiadau. Cefnogir y Bwrdd gan bedwar Pwyllgor a Thîm Gweithredol profiadol llawn ysgogiad, a staff ymroddedig, brwdfrydig a thalentog. Mae'r wybodaeth isod yn rhoi darlun manylach i chi o'r Grŵp. Byddem yn disgwyl i'r Aelodau newydd o'r Bwrdd fod yn aelod o 1 Pwyllgor o leiaf hefyd.


Rydym mewn lleoliad canolog ar hyd coridor Gogledd Cymru, 35 munud o Fangor a Wrecsam. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi datblygu ein dull o hyrwyddo gweithio ystwyth yn sylweddol ac rydym yn disgwyl parhau â dull cymysg o gyfarfodydd yn y dyfodol. Rydym yn gwmni balch iawn o Gymru a byddem yn croesawu ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg, ac aelodau o gymunedau lleiafrifol ac amrywiol.

Rwyf yn ildio fy lle ar ddiwedd Medi yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, ar ôl gwasanaethu am bron i naw mlynedd, gyda llawer o lwyddiannau i ymfalchïo ynddyn nhw; ac ar ôl penodi'r Cadeirydd nesaf, mae'n amser cyffrous i ClwydAlyn. Os ydych yn angerddol am ein cenhadaeth a'n gwerthoedd, yna rydym yn gwirioneddol edrych ymlaen at glywed gennych.

Cofion cynnes
**Stephen Porter**
Cadeirydd ClwydAlyn









**Cris McGuiness**
Cadeirydd Nesaf
ClwydAlyn

# Ein cenhadaeth

**DIM TLODI.** Dychmygwch pa mor wahanol fyddai Cymru petai gennym ddim tlodi. Pawb yn cael mynediad at dai o safon uchel, fforddiadwy. Yn gallu fforddio cynhesu eu cartrefi yn iawn a fforddio'r bwyd sydd arnynt ei angen i gadw'n iach. Efallai ei fod yn swnio'n anghredadwy, ond yn ClwydAlyn nid ydym yn meddwl hynny. Credwn y gallwn ac y dylem droi hyn yn ffaith i gymaint o bobl ag sy'n bosibl.

Mae ein cenhadaeth yn uchelgeisiol, ond trwy weithio gyda phartneriaid allanol, credwn y gallwn daclo tlodi. Mae'r pwysau costau byw presennol mor fuan ar ôl dwy flynedd o bandemig, yn golygu bod y straen ar bawb yn mynd yn anos ymdopi ag o. Mae gennym gyfrifoldeb clir i'n preswylwyr a staff i'w cefnogi trwy'r amseroedd anodd yma. Mae ein cenhadaeth yn bwysicach nag erioed.

Rydym yn gymaint mwy na darparwr tai cymdeithasol. Rydym yn gwneud cyfraniad sylweddol at economi Gogledd Cymru fel cyflogwr a buddsoddwr gan ddefnyddio cymaint o gwmnïau lleol ag sy'n bosibl a chael y gwerth cymdeithasol mwyaf am bob punt y byddwn yn ei gwario.

Mae cyflymder y newid yn y sector tai yn cynnig cyfleoedd a heriau sylweddol. Rydym yn sefydliad ystwyth sy'n addasu i newid yn rhagweithiol. Rydym yn herio ffyrdd o feddwl ac rydym yn ddewr ac agored yn ein sgyrsiau. Rydym yn greadigol ac yn llawn dychymyg wrth oresgyn heriau newydd, gan ganfod cyfleoedd newydd a gwneud y mwyaf ohonynt yn ein cenhadaeth i drechu tlodi, gan hefyd gyflawni gwasanaethau rhagorol i'n preswylwyr. Seilir ein strategaeth ar arweiniad a rheolaeth ariannol gref, gan gyflawni gwarged blynyddol y cytunwyd arnynt i'w fuddsoddi yn ein cartrefi a'n gwasanaethau. Rydym yn cyflawni ein cyfamodau ariannol, a gwerth am arian.


Er mwyn cael gwybod rhagor am yr hyn yr ydym yn ei wneud darllenwch ein hadroddiad amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu diweddaraf yma:




# Ynglŷn â ClwydAlyn

Ffurfiwyd **ClwydAlyn** yn 1978 fel Landlord Cymdeithasol Cofrestredig anelusennol ac erbyn hyn mae'r Grŵp yn rheoli dros 6,300 o gartrefi ac yn cyflogi tua 770 o staff, i ddarparu ystod o wasanaethau yn gysylltiedig â rheoli tai, sy'n cynnwys gwasanaethau gofal, gofal nyrsio a thai â chefnogaeth, datblygu, trwsio a chynnal a chadw ar draws Gogledd Cymru (Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy, Wrecsam, Powys, Gwynedd ac Ynys Môn).

Mae ein cartrefi a gwasanaethau yn cynnwys tai cymdeithasol i deuluoedd ac i bobl sengl, llety byw â chefnogaeth a gwasanaethau gofal a nyrsio arbenigol, perchenogaeth cartref cost isel, gwasanaethau rheoli prydlesi a llety ar rent canolradd ac ar rent y farchnad. Trosiant y Grŵp yn £49m.






## Ein pobl a'n gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd o Ymddiriedaeth, Gobaith a Charedigrwydd yn gyrru popeth a wnawn.

Rydym yn gwybod mai dim ond cystal â'n pobl ydym ni ac rydym am i'r bobl orau weithio gyda ni. Rydym yn falch o ddod â phobl at ei gilydd o bob cefndir a phrofiad sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau a gwneud gwahaniaeth.














### Ymddiriedaeth

**Rydym yn ymddiried yn ein pobl i wneud penderfyniadau da, ac i wneud yr hyn sy'n iawn mewn sefyllfa benodol.**

Rydym yn trin ein gilydd â pharch. Nid ydym yn cael ein clymu gan reolau ac rydym yn rhydd i weithio'n hyblyg a chreadigol er budd ein preswylwyr a'r sefydliad.

### Caredigrwydd

**Credwn y gallwn wneud gwahaniaeth. Rydym yn rhoi gobaith i'r bobl sy'n byw yn ein cartrefi ac i'n gilydd.**

Credwn bod pawb yn dod i'r gwaith i wneud y gwaith gorau posibl a byddwn yn helpu ein gilydd i gyflawni ein breuddwydion a'n nodau.

### Gobaith

**Rydym yn garedig. Rydym yn drugarog ac yn gofalu am ein gilydd, fel cydweithwyr a phreswylwyr.**

Credwn bod pawb o bwys, ac mae gennym ddiwylliant agored sy'n rhoi gwerth ar wahaniaethau. Byddwn yn mynd y filltir ychwanegol i'n gilydd; bydd ein pobl a'n preswylwyr yn gweld caredigrwydd yn y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau.

## Byw ac arwain ein gwerthoedd:

# Eich Haddewid

- ✓ Rwy'n ymddiried yn gyntaf
- ✓ Rwy'n fi fy hun
- ✓ Rwy'n defnyddio fy marn fy hun i wneud y peth iawn
- ✓ Rwy'n codi fy llais ac yn gwneud yr hyn yr ydw i'n ddweud y byddaf yn ei wneud

- ✓ Rwy'n llawn cydymdeimlad
- ✓ Rwy'n llunio cysylltiadau ystyrlon
- ✓ Rwy'n credu bod pawb o bwys
- ✓ Rwy'n rhoi gwerth ar wahaniaeth ac yn croesawu unigolyddiaeth

- ✓ Rwy'n uchelgeisiol
- ✓ Rwy'n mynd ati â'm holl egni
- ✓ Nid oes gennyf ofn cael pethau'n anghywir
- ✓ Rwy'n credu y gallaf wneud gwahaniaeth

# Ein Haddewid

- ✓ Rydym yn dweud a gwneud
- ✓ Rydym yn ddewr ac agored am ein sgyrsiau
- ✓ Rydym yn annog pobl i gymryd perchenogaeth a gwneud eu penderfyniadau eu hunain

- ✓ Rydym yn dod â phobl at ei gilydd
- ✓ Mae gennym ddrws agored i bawb
- ✓ Rydym yn arwain yn gadarnhaol, gyda diben ac â meddwl agored

- ✓ Rydym yn hyrwyddo ein cenhadaeth
- ✓ Rydym yn dathlu cyfraniadau cadarnhaol ac yn dysgu o'n profiadau
- ✓ Credwn bod pawb yn dod i'r gwaith i wneud y gwaith gorau posibl








## Ein Cartrefi

Mae ein cynlluniau datblygu yn y tymor hwy yn uchelgeisiol ac wedi eu seilio ar ein Strategaeth Dwf.  Yn ystod y 5 mlynedd nesaf, rydym yn disgwyl cwblhau 1,343 arall o gartrefi gan roi cyfanswm o 2,204 o gartrefi ers i'r rhaglen ddatblygu gael ei hehangu yn 2017/18 trwy ddefnyddio ein Bond. Erbyn diwedd 2024/25, bydd ein portffolio wedi cyrraedd dros 7,000 o gartrefi, gan gynnwys cartrefi cymdeithasol a fforddiadwy ar rent, perchenogaeth tai fforddiadwy, a daliadaethau tai eraill lle mae o fudd i'r busnes ac yn cyflawni ein gwerthoedd.

Mae'r rhaglen yn cynnwys prosiectau adeiladu o'r newydd ac adnewyddu gan gynnwys adeiladau rhestredig. Mae ein rhaglen ddatblygu yn cynnig budd lleol sylweddol trwy fuddsoddi mewn crefftwyr, cyflenwyr, hyfforddiant a phrentisiaethau lleol ac yn cefnogi economi Cymru. Bydd y rhan fwyaf o gartrefi 'oddi ar nwy' gan ddefnyddio systemau gwresogi ffynhonnell aer a ffyrdd eraill cynaliadwy yn amgylcheddol o wresogi. Bydd mwy na 240 o gartrefi newydd yn rhai carbon isel iawn, gan ddefnyddio gweithgynhyrchu oddi ar y safle a phrosesau adeiladu isel mewn carbon. Mae ein holl gartrefi newydd yn cyrraedd cyfradd A EPC, yn gartrefi gydol oes ac wedi eu hadeiladu yn ôl safonau lle hael Llywodraeth Cymru.

## Ein diben cymdeithasol

Mae cynnig gwerth cymdeithasol yn allweddol i'r hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym am sicrhau bod pob punt yn cael ei gwario mor effeithiol â phosibl fel ein bod yn gallu cael mwy o effaith ar ein cymunedau.

Mae ein strategaeth gwerth cymdeithasol newydd yn defnyddio dull rhagweithiol o sicrhau bod gwerth cymdeithasol yn ganolog i'n cynlluniau caffael.

### Mae ein fframwaith gwerth cymdeithasol yn canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth tlodi:


Ein blaenoriaethau tlodi i breswylwyr

Ein Cenhadaeth

- Cynyddu gwaith, hyfforddiant, addysg a gwirfoddoli
- Lleihau tlodi bwyd
- Lleihau tlodi tanwydd
- Cynyddu cynhwysiant digidol

→ Gyda'n gilydd i drechu tlodi

**Cwmpas Gwerth Cymdeithasol**
Gweithgareddau a gwasanaethau sy'n mynd tu hwnt i'r gofyn i gyflawni deilliannau gwerth cymdeithasol sy'n cyfrannu at ein blaenoriaethau tlodi a'n cenhadaeth i drechu tlodi.












BWYD'N DDA WELL-FED

# Ein Rheoleiddio

## Mae Llywodraeth Cymru yn goruchwylio a monitro tai cymdeithasol yng Nghymru i sicrhau bod ein tenantiaid yn cael eu diogelu.

Mae'r Fframwaith Rheoleiddiol wedi ei lunio ar yr egwyddor o gyd-reoleiddio lle mae annibyniaeth ac awtonomiaeth Byrddau a rheoleiddio effeithiol yn sicrhau ein bod:

**Yn cael ein llywodraethu'n dda** - yn cael ein harwain yn effeithiol a'n rheoli'n dda gan ein bwrdd, swyddogion a staff, ac yn gweithio gyda thenantiaid a phartneriaid i lunio a gweithredu penderfyniadau busnes effeithiol.

**Yn darparu cartrefi a gwasanaethau o safon uchel** - yn darparu cartrefi a gwasanaethau sy'n bodloni anghenion a disgwyliadau amrywiol pobl, gyda phwyslais ar wasanaethau o safon uchel a gwelliant parhaus.

**Yn hyfyw yn ariannol** - gyda chyllid yn cael ei reoli'n dda, a'r adnoddau a'r llif arian i fodloni ymrwymiadau busnes presennol a'r dyfodol.




**Roedd Barn Reoleiddiol ddiweddar Llywodraeth Cymru'r uchaf posibl ac yn cadarnhau'r canlynol:**

- **Llywodraethu (gan gynnwys gwasanaethau tenantiaid) Gwyrdd ac yn Cydymffurfio**
  Mae'r gymdeithas yn bodloni'r safonau rheoleiddiol a bydd yn derbyn goruchwyliaeth reoleiddiol arferol.

- **Hyfywedd Ariannol – Gwyrdd ac yn Cydymffurfio**
  Mae'r gymdeithas yn bodloni'r safonau rheoleiddiol a bydd yn derbyn goruchwyliaeth reoleiddiol arferol.

Rheoleiddir ein Cartrefi Gofal a Nyrsio gan Arolygaeth Gofal Cymru (AGC). Mae AGC yn reoleiddiwr annibynnol ar ofal cymdeithasol sy'n arolygu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles y preswylwyr. Mae gennym dri chartref dan y drefn reoleiddiol hon.

Rydym yn cael ein rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol o ran y cyngor ar ddyledion yr ydym yn ei roi i'n preswylwyr. Rhan o swydd y Cadeirydd fydd bod yn berson cyfrifol am y gweithgareddau a gyflawnir gan ClwydAlyn.

| Llywodraethu<br>Yn cynnwys gwasanaethau tenantiaid | Hyfywedd Ariannol |
|---|---|
| GWYRDD | GWYRDD |

Mae'r gymdeithas yn bodloni'r safonau rheoleiddiol a bydd yn derbyn goruchwyliaeth reoleiddiol arferol.

## Ein Strwythur Llywodraethu a Chyfreithiol

Mae ein Grŵp yn cynnwys **Tai ClwydAlyn**, y rhiant gwmni a'r prif gwmni gweithredol, a thri is-gwmni, **PenArian, Tir Tai** a **Tai Elwy**.

ClwydAlyn

**Tai ClwydAlyn Cyfyngedig**

Landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n datblygu, yn berchen ar, yn rheoli ac yn cynnal tai, yn ogystal â darparu gwasanaethau tai a gofal a chefnogaeth

TirTai

**Tir Tai Cyfyngedig**

asgell ddatblygu'r Grŵp, sy'n gwneud yr holl weithgareddau datblygu ar ran y Grŵp.

PenArian

**Cyllid Tai PenArian Plc**

cyfrwng diben arbennig a sefydlwyd i weinyddu cyllid y bond £250m miliwn ar ran y grŵp

TaiElwy

**Tai Elwy Cyfyngedig**

y cerbyd masnachol i gyflawni gweithgareddau a phrosiectau tu hwnt i nodau elusennol ClwydAlyn – yn neilltuol heb arian grant. (anweithredol ar hyn o bryd)

### Ein Byrddau a Phwyllgorau

Cefnogir **Bwrdd ClwydAlyn** gan bedwar Pwyllgor, y Pwyllgor Sicrhau, y Pwyllgor Pobl, y Pwyllgor Eiddo a'r Pwyllgor Preswylwyr.

**Pwyllgor Sicrhau**

Y Pwyllgor Sicrhau sy'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd am effeithiolrwydd system reoli fewnol y Grŵp (sy'n cynnwys rheoli risg, rheolaeth weithredol a chydymffurfio), Archwilio mewnol ac allanol, iechyd a diogelwch, adrodd ariannol a chydymffurfio ag Arolygaeth Gofal Cymru.

**Pwyllgor Pobl**

Mae'r Pwyllgor Pobl yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod yr hinsawdd a'r diwylliant sefydliadol yn gweithredu a datblygu yn unol â gwerthoedd a chenhadaeth y grŵp i gyflawni ein diben a rheoli risgiau'n dda.

**Y Pwyllgor Eiddo**

Mae'r Pwyllgor Eiddo yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd am ansawdd, gwerth am arian a pherfformiad y buddsoddiad mewn adeiladu cartrefi newydd a chynnal y cartrefi sy'n bodoli.

**Pwyllgor Preswylwyr**

Mae'r Pwyllgor Preswylwyr yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd o ymgysylltu â phreswylwyr, craffu gan Breswylwyr, perfformiad ar wasanaethau i breswylwyr a dylanwad preswylwyr ar wasanaethau.

## Cyfarfod y Tîm

Arweinir ClwydAlyn gan Fwrdd a Thîm Rheoli Gweithredol gydag ystod eang o brofiad mewn meysydd perthnasol, sy'n gyfrifol am arwain cyfeiriad strategol a datblygiad y Grŵp. Gwelir rhagor o fanylion am ein Tîm Gweithredol a'r Bwrdd ar ein gwefan.

https://www.clwydalyn.co.uk/the-board-and-management-team/

## Y Tîm Gweithredol

| STRWYTHUR ARWAIN GWEITHREDOL | | |
|---|---|---|
| Prif Weithredwr y Grŵp<br>Clare Budden | → | Cyfarwyddwr Corfforaethol Rheoli Asedau - David Lewis |
| | → | Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu - Craig Sparrow |
| | → | Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Cyfathrebu a Marchnata - Elaine Gilbert |
| | → | Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau - Paul McGrady |
| | → | Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal a Chefnogaeth - Ed Hughes |
| | → | Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Tai - Suzanne Mazzone |

## Ein Bwrdd

### Stephen Porter – Cadeirydd ac Aelod o'r Pwyllgor Eiddo a Phobl

Mae Steve wedi gweithio yn y Sector Tai Cymdeithasol ers 41 mlynedd ac mae'n dwyn cyfoeth o brofiad hefo fo. Cyn ei ymddeoliad yn 2013, roedd yn Brif Weithredwr ar gymdeithas dai fawr yng Ngogledd Orllewin Lloegr. Bydd Steve yn ildio ei swydd ym Medi ar ôl gwasanaethu am ei dymor o naw mlynedd ar y Bwrdd.

### Cris McGuiness – Aelod o'r Bwrdd a'r Cadeirydd Newydd

Yn ddiweddar penodwyd Cris McGuinness yn Gadeirydd newydd ar ClwydAlyn a bydd yn cymryd y swydd yn ffurfiol ym Medi 2023. Mae Cris yn Gyfrifydd Siartredig a hyfforddwyd gan KPMG sydd wedi treulio ei gyrfa hyd yn hyn yn gweithio ym maes tai cymdeithasol, gydag ychydig o wyriadau bychain – un i weithio gyda cheiswyr lloches ac un arall i helpu i ehangu trafnidiaeth gyhoeddus ym Manceinion Fwyaf. Ar hyn o bryd mae Cris yn Brif Swyddog Ariannol i Riverside lle mae wedi bod yn gyfrifol am bopeth yn ymwneud â chyllid a datblygu ers 2018. Yn wreiddiol o Dde Cymru, mae Cris yn angerddol am gydraddoldeb, amrywiaeth a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol lle gall hi.

### Paul Robinson – Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Sicrhau

Mae Paul yn Rheolwr Rheoleiddio a Llywodraethu profiadol, gyda gwybodaeth eang ym meysydd llywodraethu, rheoleiddio, cydymffurfio, ymlyniad cwsmeriaid, datblygu polisi, adolygu perfformiad a chynlluniau marchnata. Mae ganddo dros 20 mlynedd o brofiad mewn rheoli strategol. Bydd Paul yn ildio ei swydd ym Medi ar ôl gwasanaethu am ei dymor o naw mlynedd.

### Sara Mogel OBE – Aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl

Ymddeolodd Sara fel Pennaeth Coleg yn 2013 ar ôl gyrfa mewn ysgolion, colegau, awdurdod lleol ac arolygiaeth genedlaethol. Dyfarnwyd OBE iddi am ei gwasanaethau i addysg alwedigaethol yn Ionawr 2014. Bydd Sara yn ildio ei swydd ym Medi ar ôl gwasanaethu am ei thymor o naw mlynedd.

### Hayley Hulme – Aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Eiddo

Mae Hayley yn Rheolwr Gyfarwyddwr ar Starts with You, Menter Gymdeithasol sy'n is-gwmni i Gymdeithas Dai. Mae Hayley yn angerddol am wneud busnes yn gyfrifol a galluogi pobl a mannau i wneud newidiadau positif ac mae ganddi 30 mlynedd o brofiad yn y sector Tai a Mentrau Cymdeithasol.

### Peter Smith-Hughes – Aelod O'r Bwrdd, Cadeirydd y Pwyllgor Preswylwyr ac Aelod o'r Pwyllgor Sicrhau

Roedd Peter yn gweithio fel Uwch Reolwr yn ymwneud â Datblygu Adwerthu oedd yn cynnwys caffael a datblygu safleoedd. Cred Peter bod ei brofiad yn dod â golwg gytbwys ar amrywiol faterion gan gynnig proses feddwl resymegol gyda dymuniad i wella bywydau tenantiaid.

### Sandy Mewies – Aelod o'r Bwrdd a'r Pwyllgor Eiddo

Mae Sandy yn gyn Aelod o'r Cynulliad ar gyfer Delyn am 13 mlynedd. Yn y gorffennol bu'n Ohebydd, Cynghorydd yn Wrecsam ac yn un a benodwyd gan y Swyddfa Gartref ar Fwrdd Prawf Gogledd Cymru fel yr oedd. Mae Sandy yn Gymrawd Er Anrhydedd o Brifysgol Glyndŵr Wrecsam.







**Nia Wynne Hughes – Aelod o'r Bwrdd a'r Pwyllgor Sicrhau**
Dechreuodd Nia ei gyrfa ym maes archwilio yn PWC ac mae'n Gymrawd o'r Gymdeithas Cyfrifyddion Siartredig. Yn 2015 daeth Nia hefyd yn Aelod Cysylltiol o Gymdeithas y Trysoryddion Corfforaethol. Ers gadael PWC yn 2010, mae wedi cael profiad mewn nifer o swyddi ym maes cyllid yn y sector preifat ac nid er elw. Ar hyn o bryd mae Nia'n gweithio i Muir fel Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau.

**Rob Morton – Aelod o'r Bwrdd a'r Pwyllgor Eiddo a Sicrhau**
Mae Rob yn gyfrifydd cymwysedig ac yn Gyfarwyddwr Cyllid Masnachol yn yr Honeycomb Group. Roedd ganddo dros 20 mlynedd o brofiad mewn swyddi uchel masnachol ac ariannol yn y sector Cynlluniau Cyllid Preifat a'r Sector Olew a Nwy.

**Roger Rowett – Aelod o'r Bwrdd a'r Pwyllgor Pobl**
Mae Roger yn gweithio yn annibynnol fel rhan o Taith Ltd sy'n rhoi pwyslais ar ymgysylltu â rhanddeiliaid, datblygu sefydliadol ac adolygu gwasanaeth. Bu'n gweithio hefyd fel Arolygwr Ysgolion i Estyn, Uwch Arolygydd gydag Arolygaeth Safonau Gofal Cymru a Swyddog Datblygu Gweithlu i Gyngor Gofal Cymru. Mae gan Roger ddiddordeb arbennig mewn dulliau ar sail cryfderau ac mae'n aelod o'r Gymdeithas Seicoleg Busnes. Mae hefyd wedi ysgrifennu cyhoeddiadau a chyfarwyddyd am Gynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ac Ymholiadau Gwerthfawrogol.

**Frazer Jones – Aelod o'r Bwrdd a'r Pwyllgor Sicrhau**
Mae Frazer yn Brif Uwch-arolygydd wedi ymddeol o Heddlu Gogledd Cymru, ar ôl gwasanaethu'r Llu am 30 mlynedd. Bydd Frazer yn ildio ei swydd ym Medi ar ôl gwasanaethu am ei dymor o naw mlynedd.

**Sheila Powell – Aelod o'r Bwrdd a'r Pwyllgor Preswylwyr**
Ymunodd Sheila â Bwrdd ClwydAlyn ym Mai 2021 ac mae wedi bod yn breswyliwr i ClwydAlyn ers tair blynedd. Gweithiodd a gwirfoddolodd Sheila ar bob lefel yn y gymdeithas gan gynnwys gweithio gyda'r digartref. Bu Sheila yn gweithio fel Cynghorydd Tref ac i Gyngor ar Bopeth, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru ar lefel broffesiynol a phersonol, gyda'r nod o frwydro yn erbyn digartrefedd a thlodi. Mae Sheila'n defnyddio ei phrofiadau bywyd a'i chefndir gwaith i drosglwyddo'r hyn y mae wedi ei ddysgu ac mae'n teimlo'n wylaidd iawn o gael gweithio er lles Preswylwyr ClwydAlyn.

**Clare Budden – Prif Weithredwraig y Grŵp ac Aelod o'r Bwrdd**
Yn ychwanegol at ei 37 mlynedd o brofiad ym maes tai, bu Clare mewn nifer o swyddi llywodraethu mewn Cymdeithasau Tai yn Lloegr hefyd ac yn y sector menter cymdeithasol ac nid er elw. Mae sylfaen gadarn Clare o werthoedd a'i hawydd i ymdrin ag anghyfartaledd yn cael ei ymgorffori yng nghenhadaeth ClwydAlyn i weithio gydag eraill i guro tlodi.

**Ed Hughes – Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal a Chefnogaeth ac Aelod o'r Bwrdd**
Ymunodd Ed â ClwydAlyn yn Ionawr 2017 ar ôl treulio 8 mlynedd yn gweithio i'r Riverside Group yn Lerpwl, un o'r Cymdeithasau Tai mwyaf yn y Deyrnas Unedig. Ed yw'r Unigolyn Cyfrifol ar y Bwrdd am bortffolio'r Grŵp o Gartrefi Gofal a Nyrsio. Yn ychwanegol, mae gan Ed gyfrifoldeb am wasanaethau Gofal Ychwanegol a Byw â Chefnogaeth ac mae ganddo brofiad sylweddol o weithio mewn partneriaeth ar draws Tai, Iechyd, Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector.

# Aelod o'r Bwrdd - Manyleb Person

## Diben

Pennu ar y cyd beth yw diben, gweledigaeth a gwerthoedd, cyfeiriad strategol, ac egwyddorion craidd ClwydAlyn

## Cyfrifoldebau Allweddol

### Hanfodol

- Angerdd am ein diben a'n cenhadaeth i drechu tlodi
- Dealltwriaeth gadarn o swyddogaeth aelod anweithredol
- Y gallu i feddwl yn strategol, gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, cyfuno gwybodaeth gymhleth, pwyso a mesur dewisiadau, datblygu polisi a mesur risgiau.
- Hyrwyddo safonau moesegol uchel gan gadw parch y rhai yr ydym yn eu gwasanaethu trwy ddangos empathi.
- Dealltwriaeth gadarn o anghenion a dyheadau ein cymunedau lleol, cadw golwg ar faterion lleol a rhanbarthol a newidiadau a all effeithio ar ein cwsmeriaid, staff, rhanddeiliaid a chymunedau
- Y gallu i ddeall gwybodaeth ariannol a gwerthuso'r risgiau cysylltiedig.
- Y gallu i ymdrin â materion anodd yn gyson a diplomataidd.
- Y gallu i feddwl yn annibynnol a chynnig her a chefnogaeth i'r un graddau.
- Y gallu i fyw ein gwerthoedd o ymddiriedaeth, gobaith a charedigrwydd
- Cymryd rhan effeithiol yn y trafodaethau, llunio penderfyniadau a chynllunio gwaith y Grŵp, gan osod amcanion a monitro perfformiad mewn cymhariaeth â nhw.
- Ychwanegu gwerth at ddeialog y Bwrdd.

## Dymunol

Profiad o'r cyd-destun Tai a Rheoleiddiol yng Nghymru a dealltwriaeth gadarn o'r problemau y maent yn eu hwynebu.

Mae'n bwysig i ni bod y Bwrdd yn adlewyrchu barn ein cymunedau amrywiol, rydym yn gwybod bod Bwrdd yn llawn o bobl o gefndiroedd a chymunedau amrywiol yn ein gwneud yn well am wneud yr hyn yr ydym yn ei wneud. Mae hyn yn golygu llunio Bwrdd mwy cynhwysol ac amrywiol a hyrwyddo cydraddoldeb i bawb sut bynnag yr ydych yn edrych, o ble bynnag yr ydych yn dod a phwy bynnag yr ydych yn ei garu. Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bawb.

Byddem yn croesawu ymgeiswyr â phrofiad a neu sgiliau yn y meysydd canlynol yn neilltuol:

- Rheoli ac arwain Tai Cymdeithasol a Thai â Chefnogaeth
- Adeiladu masnachol
- Archwilio
- Iechyd a Diogelwch
- Cyfreithiol
- TG

Profiad o lunio cysylltiadau cynhyrchiol a rhagweithiol gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid a gweithredu gyda lefel uchel o graffu cyhoeddus ac atebolrwydd.

## Ariannol a Llywodraethu

- Sicrhau bod ClwydAlyn yn gwneud defnydd effeithlon ac effeithiol o'i adnoddau i gyflawni amcanion strategol, gan gynnal ein hyfywedd ariannol tymor hir, a diogelu asedau.
- Sicrhau bod Swyddogion yn cydymffurfio â'r Rheolau, y Cynllun Dirprwyo a'r Gorchmynion Sefydlog.
- Sicrhau bod llywodraethu, ymrwymiadau cyfreithiol a rheoleiddiol yn cael eu cynnal yn effeithlon

## Cyfrifoldebau Allweddol y Bwrdd ar y Cyd

- Gallu gweithio fel rhan o dîm sy'n gweithredu'n effeithiol, ennyn parch, gwrando ar eraill a dylanwadu arnynt.
- Deall ac eiriol dros ein cwsmeriaid a'n cymunedau. Deall ein cwsmeriaid presennol a rhai'r dyfodol, eu hanghenion, heriau a'u dyheadau. Hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant.
- Sicrhau cydymffurfio â rheoliadau a deddfwriaeth berthnasol a'r gyfraith.
- Sicrhau safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol a chywirdeb ariannol
- Craffu a sicrhau bod camau i gywiro yn digwydd, pan fydd angen.
- Rhoi cefnogaeth a her i'r swyddogion.
- Paratoi yn briodol ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn gyson, sesiynau hyfforddi, a digwyddiadau eraill cysylltiedig.
- Cyfrannu at a rhannu cyfrifoldeb am benderfyniadau'r Bwrdd a Phwyllgorau.
- Gweithredu fel llysgennad i ClwydAlyn.
- Penodi'r Prif Weithredwr, pennu telerau ac amodau cyflogaeth a monitro perfformiad
- Cymeradwyo penodiad y Tîm Gweithredol

## Cysylltiadau Allweddol

- Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol - Mae perthynas gref a chadarnhaol rhwng y Prif Swyddog Gweithredol a'r Swyddogion Gweithredol yn hanfodol er budd perfformiad effeithiol y Bwrdd
- Rhanddeiliaid - Hyrwyddo gwaith ClwydAlyn a chynnal perthynas gadarnhaol gyda'r tîm gweithredol, staff, tenantiaid, ac asiantaethau eraill a rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'n gweithgareddau.

## Eich Ymrwymiad

- Ymrwymiad i'n gweledigaeth, gwerthoedd, a diben
- Ymrwymiad i'n tenantiaid, gan sicrhau eu bod yn ganolog i bopeth a wnawn.
- Parchu amrywiaeth, cynhwysiant, a gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae gwahaniaeth yn ei roi
- Rhoi amser i baratoi, mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn rhithwir ac wyneb yn wyneb
- Ymrwymiad i ddyddiau allan Strategol, hyfforddiant a datblygiad
- Cynrychioli ClwydAlyn i hybu ei genhadaeth
- 6 cyfarfod Bwrdd yn flynyddol
- Mae ein Pwyllgorau yn cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn
- Ymweliadau blynyddol â'n Cartrefi

## Ein Cyfarfodydd

Mae gennym ddull cymysg o gynnal ein cyfarfodydd trwy Teams, ac yn ein swyddfeydd yn Llanelwy. Cynhelir dyddiau allan strategol oddi ar y safle yn un o'n cynlluniau neu mewn lleoliad addas.

## Cydnabyddiaeth ariannol

Mae'r swydd yn cael £5175 y flwyddyn. Mae'r gydnabyddiaeth yn cael ei hadolygu bob tair blynedd gan y Pwyllgor Pobl i sicrhau ei fod parhau yn unol â normau'r sector. Gall aelodau hawlio ar gyfer milltiroedd ar y gyfradd o 45c y filltir a threuliau penodol eraill a dynnir i gyflawni eu swydd.

## Hyfforddiant

Mae hyfforddiant yn bwysig a gwahoddir Aelodau i gwrs cynefino cychwynnol (ar amser y cytunir arno) a rhoddir datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae datblygiad proffesiynol parhaus a chynrychiolaeth mewn cynadleddau, seminarau, hyfforddiant ffurfiol/anffurfiol yn hanfodol. Yn ychwanegol cynhelir arfarniad blynyddol gan y Cadeirydd.

## Sut i Ymgeisio

Diolch yn fawr iawn i chi am eich diddordeb yn y swydd.

Rydym wedi ymrwymo i lunio sefydliad iach, bywiog a chynhwysol sy'n trin pobl gyda pharch ac yn creu cyfleoedd i bawb.

Rydym yn neilltuol yn annog ceisiadau gan unigolion sydd o gefndiroedd amrywiol sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd. Croesewir y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yn neilltuol bydd cryfhau sgiliau Cymraeg y Bwrdd, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddwyieithrwydd, yn helpu i ddarparu gwell gwasanaethau i bawb.

## Gallwch ymgeisio mewn nifer o ffyrdd:

### Y dull mwy traddodiadol

Anfon CV cyfredol sy'n dangos hanes eich gyrfa'n llawn a datganiad yn esbonio pam bod gennych ddiddordeb yn y swydd hon a'r sgiliau a'r profiad y gallwch eu dwyn i'r swydd.

### Anfonwch ffilm fer atom

Uchafswm o 5 munud yn esbonio pam bod gennych ddiddordeb yn y swydd hon a'r sgiliau a'r profiad y gallwch eu dwyn i'r swydd.

Anfonwch eich CV neu ffilm fer at **Rachel.storr-barber@clwydalyn.co.uk**

Rhaid i'r ceisiadau gael eu derbyn erbyn **7 Mai 2023.** Bydd ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i gyfweliad ag Aelodau'r Bwrdd, ein Pwyllgor Preswylwyr a grŵp staff.

Cynhelir y cyfweliadau yma ar **22 Mai 2023** yn ein swyddfeydd yn Llanelwy.

**Os hoffech sgwrs anffurfiol am y swydd, ffoniwch Clare Budden, ein Prif Swyddog Gweithredol ar 07909 893520.**

Am gael gwybod rhagor am ein cenhadaeth a sut beth yw bod yn rhan o'r tîm, yna cliciwch yma...

**www.joinclwydalyn.com**